**ADRODDIAD GAN Y PENNAETH CYNLLUNIO A DIOGELU’R CYHOEDD**

**APÊL CYNLLUNIO**

**MEWNFORIO GWASTRAFF ANADWEITHIOL AR GYFER EU HAILGYLCHU A’U DEFNYDDIO AR GYFER ADFER CHWAREL**

**CHWAREL MAES Y DROELL FFORDD GRAIANRHYD, LLANARMON YN IÂL**
**CAIS RHIF 15/2011/0692/PF**

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Mae’r adroddiad yn ymwneud â phenderfyniad y Pwyllgor Cynllunio i wrthod y cais uchod. Mae’r ymgeiswyr wedi rhoi gwybod i’r Cyngor ymlaen llaw eu bod yn bwriadu apelio at yr Arolygiaeth Gynllunio, gan ofyn i’r apêl gael ei gynnal drwy Ymchwiliad Cyhoeddus.

1.2 Mae’r adroddiad hwn yn darparu'r wybodaeth gefndirol berthnasol ac yn gofyn, cyn y bydd yr Arolygaeth Gynllunio yn cadarnhau bod y broses apelio wedi ei dechrau, i’r Aelodau benodi dau gynrychiolwr i gynorthwyo gyda chyflwyno’r achos yn ystod yr Ymchwiliad yn unol â pharagraff 9.3 y Protocol Ymglymiad Aelodau ac Apeliadau Cynllunio. Bydd yr adroddiad hefyd yn cyfeirio at yr angen i gael cynrychiolaeth gyfreithiol a phroffesiynol yn ystod y broses.

## 2. CEFNDIR

2.1 Mae’r apêl cynllunio wedi deillio o benderfyniad y Pwyllgor i wrthod rhoi caniatâd i fewnforio deunyddiau gwastraff ar gyfer eu hailgylchu a’u defnyddio ar gyfer adfer chwarel Maes y Droell ger Llanarmon yn Iâl.

2.2 Cyflwynwyd y cais cynllunio yn wreiddiol ym mis Mehefin 2011 a phenderfynodd y Pwyllgor arno ym mis Chwefror 2013. Argymhelliad y swyddog oedd RHOI caniatâd. Ond penderfynodd y Pwyllgor Cynllunio WRTHOD y cais am y rhesymau canlynol:

*“1. Ym marn yr Awdurdod Cynllunio Lleol, mae’r datblygiad yn annerbyniol oherwydd rhesymau yn ymwneud â phriffyrdd. Byddai’r cynnig yn arwain at gynydd yn nifer y cerbydau nwyddau trwm sy’n defnyddio’r rhwydwaith o ffyrdd gwledig anaddas. Byddai hynny yn ei dro yn peryglu defnyddwyr presennol ac arfaethedig y ffordd ac yn effeithio ar ddiogelwch a llif y traffig, sy'n groes i Bolisïau GEN 6 vii, TRA 6, a MEW 11 Cynllun Datblygu Unedol Sir Ddinbych.*

*2. Nid yw’r cynlluniau a gyflwynwyd yn dangos bod modd creu mynediad cerbydau newydd diogel a boddhaol, gyda lleiniau gwelededd. Felly, ar sail diogelwch y briffordd, nid yw’r Awdurdod Cynllunio Lleol yn ystyried y cynigion yn rhai derbyniol. Mae’r fynedfa a’r ffordd fynedfa / cyffordd yr hen chwarel yn anaddas ar gyfer traffig cerbydau nwyddau trwm ychwanegol, a fydd yn debygol o arwain at beryglon ychwanegol i ddefnyddwyr presennol ac arfaethedig y ffordd, ac yn effeithio ar ddiogelwch a llif y traffig ar y briffordd gerllaw’r safle, sy'n groes i Bolisïau GEN 6 vi a vii, TRA 6, a MEW 11 Cynllun Datblygu Unedol Sir Ddinbych, a Nodyn Cyngor Technegol 18: Cludiant.*

*3. Ym marn yr Awdurdod Cynllunio Lleol, byddai'r datblygiad yn cynyddu dwysâd gweithgarwch annerbyniol, gan gynnwys traffig ychwanegol, prosesau ailgylchu a gwaith adfer y chwarel. Byddai hyn yn ei dro yn cael effaith andwyol ar amwynder preswyl yr eiddo gerllaw, o ran sŵn, llwch ac amhariadau, sy'n groes i Bolisïau GEN 6 i, v a vii, TRA 6, a MEW 11 Cynllun Datblygu Unedol Sir Ddinbych".*

2.4 Cynigiwyd y penderfyniad i wrthod caniatâd gan y Cynghorydd Rhys Hughes a'i eilio gan y Cynghorydd Bill Cowie. Siaradodd yr Aelod Lleol, Martyn Holland, yn erbyn y cais ond nid oedd yn Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio ac felly nid oedd modd iddo gynnig na phleidleisio o blaid nac yn erbyn y cais.

2.5 Y dyddiad ar y Dystysgrif Penderfyniad yw 20 Chwefror 2013.

2.6 Mae yna bosibilrwydd o oblygiadau cost sylweddol yn sgil cynnal yr apêl trwy Ymchwiliad Cyhoeddus. Bydd hyn yn gorfodi'r Cyngor i gael bargyfreithiwr i arwain yr achos. Gan fod y penderfyniad i wrthod y cais yn groes i argymhelliad y swyddog, bydd yn rhaid hefyd cyflogi ymgynghorwyr arbenigol i amddiffyn y rhesymau dros wrthod y cais (yn wneud â phriffyrdd ac amwynder preswyl) gan na fydd modd i Swyddogion y Cyngor sy'n ymwneud â'r achos gyflwyno tystiolaeth sy'n cyferbynnu â'r farn broffesiynol y bu iddyn nhw fynegi yn ystod y broses ymgeisio. Mae'n debygol y bydd y gost rhwng £20,000 a £30,000 (nid yw hynny'n cynnwys costau apêl llwyddiannus y telir i'r apelwyr).

2.7 Nid yw Cytundeb Lefel Gwasanaeth y Cyngor gyda Chyngor Sir y Fflint ar gyfer darparu Gwasanaeth Mwynau a Gwastraff yn golygu y bydd yn rhaid i Sir y Fflint dalu costau'r apêl. Fodd bynnag bydd y swyddogion yn darparu cefnogaeth weithredol angenrheidiol yn ystod yr Ymchwiliad.

## 3. Y PENDERFYNIAD Y GOFYNNIR AMDANO

3.1 Oherwydd bod y penderfyniad i wrthod yn groes i argymhelliad y Swyddogion, mae angen dilyn y Protocol a fabwysiadwyd ar gyfer ymdrin ag Apeliadau Cynllunio ac Ymglymiad Aelodau, ac felly gofynnir am benderfyniad y Pwyllgor ar y canlynol:

Mae paragraff 9.3 yn nodi:
"Bydd Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio yn gorfod rhoi tystiolaeth mewn ymholiad neu wrandawiad anffurfiol mewn apeliadau lle mae argymhelliad y swyddogion wedi'i wyrdroi. Bydd y Pwyllgor Cynllunio yn penodi cynrychiolwyr i roi tystiolaeth yn y gwrandawiad/ymholiad (fel arfer cynigydd ac eilydd y cynnig)".

3.2 Mae'r angen i gael bargyfreithiwr ac ymgynghorydd Cynllunio / Priffyrdd i gyflwyno achos y Cyngor yn gofyn am benderfyniad y Pwyllgor, er mwyn caniatáu'r Swyddogion i wneud y trefniadau angenrheidiol mewn pryd ar gyfer y Datganiad Achos, Prawf y Dystiolaeth a chyflwyno tystiolaeth yn yr Ymchwiliad.

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Bod y Pwyllgor Cynllunio yn enwebu dau gynrychiolydd i roi tystiolaeth yn yr Ymchwiliad.

4.2 Bod y Pwyllgor Cynllunio yn cytuno i gael Bargyfreithiwr ac Ymgynghorwyr i amddiffyn y rhesymau dros wrthod.

**GRAHAM H. BOASE**

**PENNAETH CYNLLUNIO A DIOGELU'R CYHOEDD**